BEEP BEEP! DAY WITH Timmy time
saving little lives

Cerdyn Gweithgaredd 2

dal dwylo

Trefnwyd gan Brake the road safety charity

Rydyn ni'n dal dwylo wrth gerdded wrth ymyl ffyrdd

Bydd y gweithgareddau hyn yn eich helpu i gyflwyno syniadau diogelwch i blant ifanc iawn. Gallwch ddarllen y sgript yn y bylchau melyn a chynnal y gweithgareddau gan ddefnyddio'r adnoddau a ddarperir yn eich pecyn gweithredu Beep Beep! Day.

Canlyniadau dysgu

Bydd y gweithgareddau ar y cerdyn hwn yn helpu plant i ddysgu a deall:

- Pwysigrwydd dal dwylo gydag oedolyn wrth gerdded wrth ymyl ffyrdd
- Y manteision iechyd ac arbed y blaned o gerdded
- Syniadau a geirfa diogelwch ar y ffyrdd allweddol
- Sut y gall oedolion helpu i'w cadw'n ddiogel wrth ymyl ffyrdd

Beth am i ni siarad am ddiogelwch ar y ffyrdd

Defnyddiwch yr allweddeiriau canlynol wrth siarad â phlant am ddiogelwch ar y ffyrdd: **cerdded, symud, iach, stopio, aros, dal dwylo, car, traffig, diogel, perygl, cyflym, ffordd, damwain.**

Amser Timmy - yn helpu plant ifanc i ddeall am ddiogelwch ar y ffyrdd

Mae ieuenctid a diffyg profiad Timmy yn ei wneud yn gymeriad perffaith i helpu plant ifanc iawn i ddysgu gwersi pwysig am ddiogelwch ar y ffyrdd. Wrth i Timmy a'i ffrindiau fynd i'r Feithrinfa, mae ganddyn nhw lawer i'w ddysgu am y pethau pwysig mewn bywyd, gan gynnwys gofalu am bobl eraill a gwneud y 'peth iawn'.

Rydyn ni'n cymryd rhan mewn diwrnod arbennig i'n helpu i ddysgu sut i gadw'n ddiogel wrth ymyl ffyrdd. Rydyn ni'n cymryd rhan mewn Beep Beep! Day Ac mae ein ffrindiau yn Amser Timmy yn mynd i'n helpu ni i ddysgu am ddiogelwch ar y ffyrdd.

Mae Timmy yn mynd am dro heddiw. Mae cerdded yn hwyl ac mae'n dda i'n cyrff. Mae'n ein cadw ni'n iach ac yn gryf. Gan fod Timmy yn ifanc fel chi, mae angen iddo ddal dwylo gydag oedolyn pan fydd yn cerdded wrth ymyl ffyrdd. Faint ohonoch chi sy'n dal dwylo gyda'ch oedolyn pan fyddwch chi'n mynd am dro? *[Llaw i fyny.]* Allwch chi ddangos i mi sut rydych chi'n dal dwylo? *[Dal dwylo gyda'n gilydd.]* Pam rydyn ni'n dal dwylo gydag oedolion? *[Er mwyn ein cadw'n ddiogel ac i ffwrdd o draffig.]* Pam mae oedolion yn ei chael hi'n haws i gadw draw oddi wrth draffig? *[Talach / yn gallu gweld traffig yn haws.]*

Beth allwch chi ei wneud os yw eich oedolyn yn gwthio bygi ac nad oes ganddo law i chi ei dal? *[Daliwch ar y bygi, neu daliwch eu cot, ac ati.]* Parhau i ddal! Os oes rhaid i oedolyn stopio a gollwng eich llaw *[e.e. i glymu eu careiau esgidiau]* beth ddylech chi ei wneud? Dal i gerdded neu stopio ac aros? *[Stopiwch ac arhoswch bob amser.]*

Oeddech chi'n gwybod?

Mae'n anodd i blant ifanc weld a chlywed traffig. Mae plant ifanc yn gweld pethau ychydig yn wahanol – maen nhw'n tueddu i ganolbwyntio ar yr hyn sy'n digwydd o'u blaenau, a dydyn nhw ddim bob amser yn talu sylw i'r manylion o amgylch yr ymylon. Nid ydyn nhw bob amser yn ddigon tal i weld y pethau mae oedolion yn gallu eu gweld, ac – oherwydd y ffordd mae eu hymennydd yn datblygu – maen nhw'n ei chael hi'n llawer anoddach dweud pa mor gyflym mae car yn teithio pan mae'n dod tuag atyn nhw.

Gweithgaredd

Daliwch, stopiwch ac arhoswch!

BYDD ANGEN ARNOCH:

- Pentwr o deganau meddal
- Cerddoriaeth

CYFARWYDDIADAU:

1. Dywedwch: "Dewch i ni ddangos i Timmy a'i ffrindiau sut i ddal dwylo, stopio ac aros!"
2. Pawb yn dal dwylo gyda thegan meddal *[un tegan meddal rhwng dau berson fel bod ganddyn nhw fraich yr un]*.
3. Dywedwch wrth y plant pan fydd y gerddoriaeth yn dechrau, y dylen nhw gerdded yn synhwyrol gyda'u teganau, gan ddal eu dwylo. Pan ddaw'r gerddoriaeth i ben, rhaid i bawb roi'r gorau i gerdded, parhau â dal llaw eu tegan ac aros nes i chi ddweud "Ewch!" ac mae'r gerddoriaeth yn dechrau eto.
4. Os na fyddan nhw'n stopio ac aros, maen nhw allan. Os ydyn nhw'n gollwng eu tegan, maen nhw allan.

TRAFODAETH:

Atgoffwch y plant pan fyddant yn cerdded wrth ymyl ffyrdd gydag oedolion y dylent bob amser ddal dwylo ac aros i ffwrdd o draffig. Os oes angen i'w oedolyn stopio, fe ddylen nhw stopio hefyd, a dal i afael ar law eu hoedolyn trwy'r amser.

Cân gerdded

Cân am ddiogelwch ar y ffyrdd, i ymarfer yr hyn rydych chi wedi'i ddysgu! *[canwch i dôn 'Mae'r olwynion ar y bws!']*

Mae'r traffig ar y ffordd yn fawr a chwim, mawr a chwim, mawr a chwim

Mae'r traffig ar y ffordd yn fawr a chwim, trwy y dydd.

[**Gweithred:** *gwnewch eich hun yn dal ar gyfer 'mawr'; symud breichiau fel olwynion yn mynd rownd ar gyfer 'chwim']*

Pan yn cerdded wrth y ffyrdd 'da ni'n dal dwylo, ni'n dal dwylo, ni'n dal dwylo

Pan yn cerdded wrth y ffyrdd 'da ni'n dal dwylo, trwy y dydd. [**Gweithred:** *stompio wrth ddal dwylo]*

Rhaid stopio ac aros cyn croesi'r ffordd, croesi'r ffordd, croesi'r ffordd

Rhaid stopio ac aros cyn croesi'r ffordd, trwy y dydd. [**Gweithred:** *dal llaw i fyny, cledr eich llaw wedi'i droi allan i arwyddo stop]*

Gweithgaredd Bod yn flêr ar gyfer diogelwch ar y ffyrdd

BYDD ANGEN ARNOCH:

- Darn mawr o bapur
- Poster paent a brwshys

CYFARWYDDIADAU:

1. Dywedwch wrth y plant eu bod yn mynd i wneud poster anferth i atgoffa oedolion i ddal eu llaw wrth gerdded wrth ymyl ffyrdd.
2. Gadewch i'r plant wneud printiau llaw trwy drochi eu dwylo mewn paent poster neu beintio eu dwylo gyda brwsh a gwasgu ar y papur.
3. Ysgrifennwch enw pob plentyn wrth ymyl eu print llaw.
4. Ysgrifennwch 'RYDYN NI'N DAL DWYLO WRTH GERDDED WRTH YMYL FFYRDD' mewn llythrennau mawr ar draws y top.
5. Arddangoswch eich poster gorffenedig mewn man lle bydd rhieni a gofalwyr yn ei weld.

TRAFODAETH:

Gofynnwch i'r plant ddangos y poster i'w rhieni a'u gofalwyr. Gallant ddod o hyd i'w print llaw eu hunain ac egluro mai pwrpas y poster yw atgoffa oedolion i ddal eu llaw bob amser wrth gerdded wrth ymyl ffyrdd.

PWER SWNIAN

Gall hyd yn oed y plant ieuengaf fod yn arweinwyr ar gyfer diogelwch ar y ffyrdd trwy ofyn i oedolion eu cadw'n ddiogel wrth ymyl ffyrdd.

Gofynnwch i'r plant liwio'r cardiau post a'r taflenni lliwio yn eich pecyn gweithredu. Anfonwch eu gwaith celf adref gyda llythyr yn gofyn i rieni siarad â phlant am y neges ar y cerdyn post, ac i arddangos gwaith celf yn falch – i ddangos eu bod yn deall pwysigrwydd cadw plant yn ddiogel wrth ymyl ffyrdd.



Dysgu rhagor am Beep Beep! Days

www.brake.org.uk/beep

#BeepBeepDay

© Aardman Animations LTD 2024 / © Brake 2024